**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref ER
Ein cyf/Our ref HIDCC/00820/25

Y Cynghorydd Beca Roberts
eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

29 Mai 2025

Annwyl Gynghorydd Roberts,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 24 Ebrill at y Cwnsler Cyffredinol, yn rhannu'r newyddion am gefnogaeth Cyngor Gwynedd ar gyfer datganoli'r system gyfiawnder a sefydlu awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân i Gymru. Fel y gweinidog sy'n gyfrifol am ddatganoli a materion cyfansoddiadol, gofynnwyd i mi ymateb.

Polisi Llywodraeth Cymru ers cryn amser yw ceisio datganoli'r system gyfiawnder, yn ei chyfanrwydd, i Gymru. Mae sefydlu awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân i Gymru hefyd wedi bod yn bolisi hirsefydlog gennym ni. Argymhelliad y Comisiwn ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru ym mis Ionawr 2023 oedd y dylid datganoli cyfiawnder yn raddol er mwyn lleihau unrhyw darfu. Roedden nhw'n argymell y dylai'r broses o ddatganoli cyfiawnder ddechrau gyda chyfiawnder ieuenctid, prawf a phlismona. Roedd Llywodraeth Cymru a'r Senedd yn cefnogi'r argymhelliad hwn, gan gytuno bod angen dull graddol i gyflawni newid o'r raddfa hon.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Roedd maniffesto Llywodraeth y DU yn cynnwys ymrwymiad i ystyried datganoli cyfiawnder ieuenctid, a datganoli'r system brawf fel rhan o'r adolygiad strategol ohoni. Rydym yn cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth y DU am yr ymrwymiadau hyn a sut y gallwn eu datblygu. Yn y cyfamser, yng Nghymru, rydym yn parhau i wneud gwaith paratoadol, gan gynnwys gweithio drwy raglen ymchwil cyfiawnder ac ymgysylltu'n barhaus ag academyddion, arbenigwyr a'r rhai sydd â phrofiad byw o'r system gyfiawnder, gan gynnwys cynnal cyfarfodydd rheolaidd gydag undebau llafur cyfiawnder.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig